# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 8 Hydref 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i hybu mentergarwch ymysg menywod. (WAQ56575)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Hydref 2010***

Yn Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd rydym yn rhoi pwyslais ar hyrwyddo entrepreneuriaeth a'r angen i greu ymwybyddiaeth well o gyfleoedd a manteision cysylltiedig er mwyn annog mwy o bobl i ddechrau busnes, yn ogystal â chynorthwyo entrepreunuriaid sefydliedig. Rydym am gadw unigolion â sgiliau sydd ag ysbryd entrepreneuraidd ac uchelgais i lwyddo a denu rhai newydd, er mwyn helpu i greu cenedl gyfoes a dynamig.

O fewn ein cymorth i unigolion sydd am ddechrau busnes, rydym yn annog entrepreneuriaeth ymysg merched drwy grwpiau ffocws a digwyddiadau ymgysylltu sy'n targedu cynulleidfaoedd benywaidd yn benodol. Drwy gydnabod y rhwystrau y gall merched eu hwynebu wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau dechrau busnes, gall unigolion wneud cais am gymorth ychwanegol yn ôl disgresiwn.

O fewn ein gweithgarwch entrepreneuraidd i'r ifanc rydym hefyd yn defnyddio entrepreneuriaid benywaidd fel modelau rôl i hyrwyddo entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc rhwng pump a 25 oed.

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Pa gyfran o gyllideb yr hen Gronfa Fuddsoddi Sengl fydd yn cael ei dyrannu i'r chwe sector allweddol sydd wedi'u diffinio yn Rhaglen Adnewyddu'r Economi. (WAQ56580)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Hydref 2010***

Bydd tua 46% o'r Gronfa Fuddsoddi Sengl gynt yn cael ei neilltuo'n uniongyrchol ar gyfer y chwe sector.

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Pa gyfran o gyllideb yr hen Gronfa Fuddsoddi Sengl fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer buddsoddiadau mewn seilwaith, er enghraifft, band eang, trafnidiaeth ac adfywio. (WAQ56581)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Hydref 2010***

Bydd tua 50% o'r Gronfa Fuddsoddi Sengl gynt yn cael ei neilltuo'n uniongyrchol ar gyfer buddsoddiadau mewn seilwaith a ddiffinnir yn Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd.

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Pryd caiff y Gronfa Twf Ranbarthol ei sefydlu, a phryd y bydd gwybodaeth am ei gweithrediad ar gael. (WAQ56582)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

We have no Regional Growth Fund, but our Regional Priority Fund will become operational for the 2011/12 financial year and information on the fund will be made available next year.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion nifer y cleifion yng Nghymru sydd wedi cael eu cyfeirio ar gyfer llawdriniaeth gordewdra bob flwyddyn, dros y pum mlynedd diwethaf. (WAQ56577)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Hydref 2010***

Cyfrifoldeb Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru yw'r mater hwn.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** O'r holl gleifion yng Nghymru a gafodd eu cyfeirio ar gyfer llawdriniaeth gordewdra bob blwyddyn dros y pum mlynedd diwethaf, faint o'r cyfeiriadau hyn sydd wedi cael eu cymeradwyo. (WAQ56578)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Hydref 2010***

Cyfrifoldeb Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru yw'r mater hwn.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf, beth oedd cyfanswm cost rhoi llawdriniaeth gordewdra i gleifion Cymru. (WAQ56579)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Hydref 2010***

Cyfrifoldeb Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru yw'r mater hwn.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

**Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i wella cysylltiadau rhwng grwpiau ethnig gwahanol yng Nghymru. (WAQ56576)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Hydref 2010***

Lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Cymru'n Cyd-dynnu - Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru' ym mis Rhagfyr 2009. Mae egwyddorion cydlyniant cymunedol yn ymwneud â phobl yn byw ochr yn ochr â'i gilydd gan ddeall a pharchu ei gilydd. Nod y Strategaeth yw cefnogi darparwyr gwasanaethau fel awdurdodau lleol a'u partneriaid i ddatblygu dull lleol strategol i hyrwyddo a chynnal cydlyniant yn eu hardaloedd.